**Ymateb y Llywodraeth:** Gorchymyn Deddf Diogelu’r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2**:

Yn ystod hynt Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ("y Bil") drwy'r Senedd, pwysleisiodd y Gweinidog Newid Hinsawdd y byddai'r gwaharddiad ar gynhyrchion plastig untro yn cael ei weithredu mewn dau gam. Byddai'r cam cyntaf yn cynnwys cynhyrchion plastig untro a oedd wedi bod yn destun ymgynghoriad yn 2020 a chamau deddfwriaethol ar lefel y DU a'r Undeb Ewropeaidd.

Byddai'r ail gam a'r cam olaf yn cynnwys cynhyrchion nad ydynt wedi'u gwahardd mewn mannau eraill yn y DU (bagiau siopa plastig untro, caeadau polystyren ar gyfer cwpanau a chynwysyddion cludfwyd a chynhyrchion wedi'u gwneud o blastigau ocso-ddiraddadwy). Bwriad y dull graddol hwn yw rhoi amser ychwanegol i fusnesau symud i ffwrdd oddi wrth y cynhyrchion hyn a chael gafael ar rai amgen. Bydd hefyd yn caniatáu i welliannau gael eu gwneud i Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010. Nododd y Gweinidog Newid Hinsawdd hefyd fod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i dystiolaeth wyddonol sy'n dod i'r amlwg ar effeithiau amgylcheddol plastigau ocso-ddiraddadwy/ocso-fioddiraddadwy.

Mae manylion yr amserlen ar gyfer dechrau'r ail gam yn dal i gael eu cwblhau, ond mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi ymrwymo i ddechrau gwahardd y cynhyrchion sy'n weddill cyn diwedd tymor y Senedd hon (Mawrth 2026).

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3**:

Fel y nodwyd drwy gydol hynt y Bil yn y Senedd, safbwynt Llywodraeth Cymru o hyd yw, pan fo'r Senedd yn deddfu mewn meysydd nas cedwir yn ôl, ei bod yn gwneud hynny'n rhydd o ofynion Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020. Mae hyn yn golygu y bydd y gwaharddiadau a ddarperir yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 yn gwbl effeithiol a gorfodadwy waeth beth fo'r sefyllfaoedd o ran rheoleiddio mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.